




Bwyd a Diod Cymru  
Food & Drink Wales

# Trawsnewid Sgiliau yn y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru.

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru  
Llais y diwydiant yng Nghymru



Ceir corff sylweddol o ymchwil ar ffurf Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn ymwneud â thrafferthion sgiliau drwy'r holl Gadwyn Gyflenwi Bwyd yng Nghymru ac mae'r themâu a'r problemau a nodwyd wedi parhau'n ystyfnig o gyson ers tua wyth mlynedd er gwaethaf nifer o ymyriadau. Mae'r materion a nodwyd wedi'u crynhoi'n dda yng Nghynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru dan y pennawd 'Addysg, Hyfforddiant, Sgiliau ac Arloesi'.



# Y Cynllun.

Mae'r adroddiad yn nodi'r problemau cyffredinol canlynol:

- Mae nifer sylweddol o fusnesau (45%) yn profi bylchau neu brinder o ran sgiliau mewn pynciau technegol gan gynnwys:
  - Gwyddor a pheirianeg bwyd
  - Gweithredu a chynnal a chadw cyfarpar
  - Ystyriaethau gwastraff ac amgylcheddol
  - Gwerthu a marsiandïaeth
- Mae angen tua 75,000 o bobl newydd mewn rolau drwy'r holl gadwyn gyflenwi bwyd o ganlyniad i weithlu sy'n heneiddio
- Mae'r diwydiant yn dioddef o ddelwedd wael a diffyg apêl sy'n golygu bod angen 'gwerthu' y diwydiant i bobl ifanc
- Ceir ymrwymiad isel ymhlith busnesau Cymru i hyfforddi - ceir ecwilibriwm isel o sgiliau sy'n golygu nad yw cwmnïau'n gweld gwerth hyfforddi ac felly nid ydynt yn hyfforddi - ac felly nid ydynt yn gweld gwerth hyfforddi
- Mae cyrchu hyfforddiant yn ddryslyd ac yn anodd – mae'r dirwedd sgiliau'n ddryslyd i nifer o fusnesau boed hynny'n golygu dod o hyd i'r rhaglenni cywir, dod o hyd i ddarparwr neu gael gwybodaeth am ffrydiau cyllid posibl
- Mae dibyniaeth y sector ar lafur sy'n deillio o Ewrop yn golygu y gall yr iaith Saesneg fod yn broblem i weithwyr, yn y gweithle ac yn y cymunedau lleol.



Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, gydag aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid eraill yng nghynhadledd 'Buddsoddi mewn Sgiliau: Buddsoddi mewn Twf' a gynhaliwyd yn yr hydref

Amlinellwyd cynigion penodol i fynd i'r afael â'r materion hyn yng Nghynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru. Mae'r materion a nodir yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent pan ddatblygwyd y cynllun sgiliau gwreiddiol. Dilyswyd llawer o'r themâu yn y gynhadledd sgiliau ddiweddar yn enwedig y prinder sgiliau mewn gwyddor a thechnoleg bwyd, peirianeg a thechnegol. Pryder sylfaenol allweddol hefyd oedd delwedd wael y diwydiant. Roedd yn amlwg fod ymwybyddiaeth a chyrchu darpariaeth hefyd yn broblem, gyda diffyg dealltwriaeth ymhlith cwmnïau ynghylch pa ddarpariaeth sydd ar gael a ble i ddod o hyd iddi, ac i raddau mae ymrwymiad busnesau i ymgymryd â hyfforddiant yn parhau'n broblem.

Ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu, ac yn dilyn canlyniad y refferendwm i adael yr UE, mae pryder newydd ac uniongyrchol wedi datblygu'n ymwneud â'r llafur sydd ar gael. Er nad mater yn ymwneud â sgiliau'n unig yw hyn, gan fod nifer o'r rolau a lenwir gan lafur achlysurol a thramor yn rhai sgiliau isel, mae'n fater pwysig yn ymwneud â phobl, sydd mewn perygl o gyfyngu ar allu cwmnïau i gynhyrchu bwyd yng Nghymru.

Mae'r gallu i gael effaith ar y problemau sgiliau penodol a wynebwr gan y diwydiant yn cael ei ddylanwadu i raddau helaeth gan bolisi sgiliau Cymru: mae sgiliau, fel addysg, yn gyfrifoldeb datganoledig. Ceir nifer o fentrau sgiliau sy'n cyflenwi elfennau o bolisi sgiliau Llywodraeth Cymru er y nodwyd ei bod yn ymddangos fod newid sylweddol wedi bod mewn amser cymharol fyr a all ychwanegu at yr ymdeimlad o ddrwschwch y mae busnesau yn ei wynebu.

Y prif bolisi sgiliau yw Prentisiaethau, a chyflwynodd y newidiadau diweddar, a gyhoeddwyd yn 'Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru' ym mis Chwefror 2017, ymagwedd pob oed, unrhyw oed, sy'n golygu yn ddamcaniaethol y gallai unrhyw ddysgwyr o unrhyw oed ymgymryd â phrentisiaeth yn hytrach na bod cyfyngiadau oed neu hyd cyflogaeth yn rhwystrau, fel oedd yn digwydd yn flaenorol. Fodd bynnag, un rhwystr sylweddol o ran denu talent yw'r polisi na all unigolyn sydd â chymhwyster ar un lefel ailhyfforddi drwy brentisiaeth os yw'r sgiliau newydd ar yr un lefel. Felly yn ddamcaniaethol ni allai person trin gwallt canol oed neu berson ifanc gyda chymhwyster Safon Uwch ailhyfforddi fel prentis cynnal a chadw Peirianeg gan fod y cymhwyster ar yr un lefel, hyd yn oed os ydynt yn gwbl wahanol. Gallai cyflwyno ardoll prentisiaeth ar draws y DU, treth cwmni, fod â nifer o ganlyniadau anfwriadol i gyrff aml-genedl sydd â safleoedd yng Nghymru; ceir perygl gwirioneddol y bydd safleoedd Cymru'n cael eu gadael ar ôl wrth i raglenni prentisiaeth aml-safle sydd wedi'u canoli gael eu cyflwyno mewn safleoedd yn Lloegr yn unig gan fod yr ardoll yn gorfod cael ei defnyddio gan y cwmnïau hynny yn Lloegr yn unig. Wrth geisio atgynhyrchu'r cynlluniau hyn mae cwmnïau yng Nghymru'n torri'r rheol 'cymwysterau o'r un lefel' sy'n golygu mai dim ond rhai o'u pobl y gallant eu hyfforddi.



Mae'r polisi prentisiaethau'n newid a'r nod yw cydweddu prentisiaethau gan symud at weithlu â sgiliau uwch, ar lefel uwch a blaenoriaethu prentisiaethau ar lefel 3 ac uwch; mae'r rhan fwyaf o brentisiaethau yng Nghymru ac yn y diwydiant bwyd a diod ar lefel 2. Yn wir mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol am y diwydiant; er ein bod ni'n ceisio creu delwedd gadarnhaol o'r gyrfaoedd yn y sector, mae llawer o'r swyddi mewn gwirionedd yn rhai sgiliau isel ac â chyflogau is. Caiff y diwydiant bwyd ei ystyried yn eang yn rhan o'r economi sylfaenol - ynghyd ag adeiladu ac ynni a'r amgylchedd, bwyd a ffermio yw un o dri sector blaenoriaeth yn unig yng Nghymru sy'n rhan o'r economi hon. Nodweddir yr economi sylfaenol gyda chyfleoedd cyflogaeth eang wedi'u gwasgaru dros ardal ddaearyddol ond gyda chyflogau is, lefelau is o arloesi technegol ac yn aml bwlch cyflog rhywedd. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai ymyrryd yn y farchnad hon gynorthwyo lefelau uwch o arloesi. Mae'n bwysig nodi pe bai modd awtomeiddio swyddi llafurol, yna gellid trawsnewid cyflogaeth ym maes bwyd a diod, gyda llai o rolau ond â sgiliau uwch.

Yn olaf mae'r cyfrifoldeb am gynllunio, datblygu a phennu'r blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau'n ymddangos fel pe bai'n symud; hyd yma Cyngorau Sgiliau Sector y cyflogwyr, fel y Sgiliau Bwyd a Diod Cenedlaethol, oedd yn datblygu'r prentisiaethau'n unol â'r polisi ond gyda chyfraniad sylweddol gan gyflogwyr; caiff cynlluniau prentisiaethau'r dyfodol eu llywio drwy argymhellion gan bartneriaethau sgiliau rhanbarthol, gwybodaeth o'r farchnad lafur ac adolygiadau sector a gynhelir gan Cymwysterau Cymru. Nid yw'n glir sut y gall cyflogwyr gyfrannu mewn unrhyw fodd i'w cynllunio yn y dyfodol.

Dyw hi ddim yn syndod bod y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn rhannu heriau tebyg gyda chenhedloedd datganoledig eraill ac yn wir gyda Lloegr ac unwaith eto mae'r LMI i raddau helaeth yn dangos hyn.

Nodwyd yr heriau hyn wrth ddatblygu dadansoddiad o sgiliau ar draws y DU ar y cyd â 15 o gymdeithasau masnach y diwydiant dair blynedd yn ôl.

Yn dilyn trafodaeth ac ymgysylltu sylweddol datblygwyd strategaeth ddrafft, a nododd y dadansoddiad bum thema allweddol ar gyfer gweithredu. Y rhain oedd:

- Yr angen i sicrhau gweithlu symudol, uchel ei gymhelliad ac amrywiol
- Mynd i'r afael â'r bylchau a'r prinder sgiliau sy'n cyfyngu ar greadigrwydd
- Gwella delwedd y diwydiant gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys pobl ifanc
- Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu hyfforddiant cynaliadwy, mwy ymatebol ac uwch ei safon
- Mynd i'r afael ag agwedd y diwydiant a buddsoddiad mewn sgiliau a hyfforddiant.



Mae gan Gymru nifer o elfennau unigryw sy'n ei gwneud yn wahanol mewn ffyrdd pwysig i weddill y DU.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfran uwch o lawer o BBaChau ac yn enwedig micro-fusnesau
- Diwydiant gwasgaredig yn ddaearyddol gyda chysylltiadau trafndiaeth gwael mewn rhai achosion
- Diffyg graddfa busnes
- Mwy o fusnesau 'amlweddog' e.e. y ffermwr sy'n cynhyrchu selsig ac yn eu manwerthu neu sy'n gweithredu busnes lletygarwch
- Llywodraeth sy'n fwy pleidiol i 'fwyd a ffermio' ac sy'n rhagweithiol o ran cefnogi'r diwydiant
- Ei pholisïau ei hun ar gyfer sgiliau a phrentisiaethau
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2016.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnig cyd-destun arbennig o gryf ar gyfer fframio gweithgaredd o gylch sgiliau ac mae iddi'r potensial i sicrhau mantais gystadleuol i Gymru. Ar gyfer sgiliau yn y diwydiant bwyd a diod mae nifer o'r themâu yn y cynllun hwn yn cyd-fynd yn gryf gydag egwyddorion y ddeddf. Gall prentisiaethau ansawdd uchel gyflenwi symudedd cymdeithasol, a gwell ffyniant: gall agor drysau a denu gweithwyr lleol helpu i adeiladu cymunedau mwy cydlynol. Gall gwelliannau o ran cynhyrchedd sy'n codi o well sgiliau arwain at Gymru fwy llewyrchus ac o'u cysylltu â gwelliannau o ran cynladwyedd gallant adeiladu Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Mae dadansoddiad o'r holl wybodaeth yn ein harwain i gasglu bod pedair prif thema yn ymwneud â sgiliau ble mae angen gweithredu os ydym ni am gael unrhyw effaith. Yn ogystal ceir un mater yn 'gysylltiedig' â sgiliau. Amlinellir y materion hyn ynghyd â'r camau gweithredu a gynigir i ymdrin â nhw.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 1 Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- 2 Cymru lewyrchus
- 3 Cymru wydn
- 4 Cymru iachach
- 5 Cymru fwy cyfartal
- 6 Cymru â chymunedau cydlynol
- 7 Cymru â diwylliant fywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu



## 4 thema agiliau allweddol i Gymru.

1	Mynd i'r afael â'r prinder sgiliau sy'n cyfyngu ar gynhyrchedd
2	Cynyddu'r nifer sy'n dewis prentisiaethau yng Nghymru drwy sicrhau prentisiaethau addas i'r diben, wedi'u cynllunio gan y diwydiant, eu hariannu'n briodol a'u cyfleu'n dda
3	Gwella canfyddiad a dealltwriaeth o'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru fel maes sy'n cynnig dewis cyffrous o yrfa
4	Mynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil marchnad lafur sy'n tynhau drwy arloesi
+	Datblygu Cymru fel cartref arloesi ym maes bwyd a diod (nid sgiliau o reidrwydd)

## Camau arfaethedig.

1	Mynd i'r afael â'r prinder sgiliau sy'n cyfyngu ar gynhyrchedd		
Amcan	Mecanwaith	Tacteg	
Cynyddu'r nifer o dechnolegwyr gwyddor bwyd sydd wedi'u hyfforddi i ymgymryd ag amrywiol rolau yn y diwydiant	Datblygu llwybrau prentisiaeth newydd i ychwanegu at y rolau llawn amser	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a lansio prentisiaeth technolegydd bwyd 'lefel Dechnegol' (L3)</li> <li>Datblygu prentisiaeth Technegol Bwyd ar lefel gradd</li> </ul>	
Datblygu hyfforddiant newydd ar gyfer datblygu peirianwyr bwyd a diod sydd wedi'u hyfforddi'n benodol	Datblygu llwybr prentisiaeth newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu prentisiaeth L3 benodol mewn peirianeg bwyd a diod</li> </ul>	
Ei gwneud yn haws a mwy fforddiadwy i fusnesau wella eu sgiliau technegol, gwerthu a masnachol	Darparu cyllid hyblyg i fusnesau allu ei ddefnyddio i fodloni eu hanghenion penodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglenni Cyswllt Ffermio a Sgiliau Cymru i gyllido hyfforddiant i fusnesau</li> </ul>	
Cynyddu'r nifer o raddedigion sy'n mynd i'r diwydiant	Datblygu dull Cymreig newydd sy'n adeiladu ar ymarfer gorau yn Lloegr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Peilota datblygiad cynllun ôl-raddedig cyffredin i weithwyr proffesiynol bwyd-amaeth</li> </ul>	
Gwella sgiliau masnachol busnesau bwyd i gefnogi datblygiadau busnes newydd (cysylltu â'r ffrwd gwaith marchnad)	Datblygu rhaglenni i fodloni anghenion unigryw gan gynnwys clystyru a chefnogi busnesau twf	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mentora Bwyd a Diod</li> <li>Cywain o Menter a Busnes</li> <li>Rhaglenni newydd ar gyfer rheoli categori a datblygu busnes i gynorthwyo cwmnïau bwyd i ddatblygu</li> </ul>	

## 2

## Cynyddu'r nifer sy'n dewis prentisiaethau yng Nghymru drwy sicrhau prentisiaethau addas i'r diben, wedi'u cynllunio gan y diwydiant, eu hariannu'n briodol a'u cyfleu'n dda

Amcan	Mecanwaith	Tacteg
Gwella dealltwriaeth a hwylystod dod o hyd i wybodaeth am brentisiaethau bwyd	Holl dudalennau cymorth y llywodraeth i gynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth am Gyrfa Cymru a Busnes Cymru yn haws ei chael</li> <li>Bwyd a Diod Cymru i gael gwybodaeth</li> <li>Holl dudalennau'r llywodraeth i gysylltu â Gyrfaoedd Blasus ac fel arall</li> </ul>
	Darparu deunyddiau syml hawdd eu deall yn cysylltu'r prentisiaethau sydd ar gael â darparwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchu gwybodaeth i gynorthwyo cyflogwyr – potensial ar gyfer postiadau'r dyfodol. 'Beth', 'pwyl' a 'sut'</li> </ul>
Galluogi holl dalent arfaethedig y dyfodol i dderbyn hyfforddiant priodol ar gyfer gyrfa yn y diwydiant	Codi'r cyfyngiad yn ymwneud â 'chymhwyster blaenorol' ar gyfer prentisiaethau bwyd a ffermio	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysgrifennydd y Cabinet i ysgrifennu at y Gweinidog Sgiliau newydd</li> </ul>
Cyflwyno prentisiaethau newydd ac adolygu rhai cyfredol i sicrhau eu bod yn addas i'r diwydiant	Datblygu fframwaith technegol (STEM) newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu prentisiaethau gwyddor a pheirianneg bwyd newydd</li> </ul>
	Sicrhau bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei chynnwys yng nghynllun y brentisiaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhagoriaeth Cynhyrchu Bwyd i hyrwyddo cynladwyedd a newid diwylliant</li> </ul>
Cynyddu'r nifer o brentisiaethau yr ymgymeirir â nhw mewn busnesau bwyd	Sicrhau bod pob busnes sy'n derbyn cefnogaeth gan yr Is-adran Fwyd yn blaenoriaethu prentisiaethau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro cynlluniau sgiliau a hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymiaadau sgiliau</li> </ul>
	Darparu cae gwastad i fusnesau sy'n talu'r ardoll yng Nghymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod cronfa benodol ar gael er mwyn i fusnesau sy'n talu ardoll allu cefnogi prentisiaethau ar draws y DU</li> </ul>
Sicrhau nad yw llais y cyflogwr yn cael ei leihau mewn unrhyw ddiwygiadau i brentisiaethau	Partneriaethau Sgiliau Diwydiant (ISP) i gyflwyno llais ffurfiol ar ran cyflogwyr ar gynlluniau'r prentisiaethau	<ul style="list-style-type: none"> <li>ISPs i gysylltu'n ffurfiol â chlystyrau lle bo'n briodol</li> <li>Y rôl i'w hychwanegu at y cylch gorchwyl</li> <li>Cyflogwyr i ysgrifennu at Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod bwyd a ffermio'n cael eu hystyried yn bwysig</li> </ul>



## 3

### Gwella canfyddiad a dealltwriaeth o'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru fel maes sy'n cynnig dewis cyffrous o yrfa

Amcan	Mecanwaith	Tacteg
Gwella ymwybyddiaeth pobl ifanc o yrfaeodd yn y diwydiant bwyd a ffermio	Sicrhau gweleddd a rhyngweithio yn y manau ble mae pobl ifanc yn edrych	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau presenoldeb y diwydiant yn Sgiliau Cymru bob blwyddyn drwy Gyrfaoedd Blasus a chynyddu rhyngweithio ar y safle</li> <li>Ehangu cyfraniad yr holl gadwyn gyflenwi (ac eithrio manwerthu) yn Sgiliau Cymru</li> <li>Sicrhau presenoldeb gwe yn gysylltiedig â safleoedd y llywodraeth a diddordebau pobl ifanc</li> <li>Hyrwyddo gyrfaoedd mewn digwyddiadau allweddol i'r diwydiant fel y Ffair Aeaf a Sioe Frenhinol Cymru</li> </ul>
Cynyddu ymwneud y diwydiant mewn gweithgareddau sy'n cynrychioli'r diwydiant	Datblygu adduned y diwydiant i gefnogi ysgol sy'n defnyddio pecyn cymorth Gyrfaoedd Blasus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Anelu at sicrhau bod 50 o gwmnïau'n llofnodi'r adduned</li> </ul>
Sicrhau bod opsiynau ar gael i gwmnïau ymgysylltu â'u hysgolion lleol	Cynnal a gwella'r arlwy presennol yn y pecyn cymorth Gyrfaoedd Blasus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i hyfforddi Llysgenhadon Blasus, gan adnewyddu'r hyfforddiant i gwmpasu digwyddiadau gyrfaoedd, cyflwyniadau a chynnal teithiau</li> <li>Cynnal a datblygu 'Teithiau Blasus' i gefnogi ymweliadau â ffatrioedd</li> <li>Datblygu'r her fwyd (gweler y pwynt nesaf)</li> <li>Ymgysylltu â'r rhaglen bwyd a hwyl (chwant bwyd gwyliau)</li> </ul>
Cynyddu'r opsiynau ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion	Datblygu 'Her Fwyd' i hyrwyddo entrepreneuriaeth ac ymgysylltu â'r swyddi yn y diwydiant	<ul style="list-style-type: none"> <li>Seiliedig ar ganlyniadau dysgu cwricwlwm Cymru (dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth) i sicrhau ei bod yn berthnasol</li> <li>Cystadleuaeth i ddatblygu cynnyrch yn unol â themâu Cenedlaethau'r Dyfodol; iach, tarddu o Gymru ac ati</li> <li>Timau â rolau gwahanol e.e. ymchwil i'r farchnad, datblygu cynnyrch, dylunio pecynnu ac ati</li> <li>Cynhyrchion rhestr fer i'w harddangos yn y Sioe Frenhinol a Blas Cymru</li> <li>Canolfannau Bwyd i ymgymryd â phrototeipio</li> <li>Cyhoeddi'r enillydd yn Blas Cymru – prynwyr rhyngwladol yn pleidleisio</li> </ul>

## 4

## Mynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil marchnad lafur sy'n tynhau drwy arloesi

Amcan	Mecanwaith	Tacteg
Ymdrin â rhwystrau sy'n atal gweithluoedd lleol rhag sicrhau cyflogaeth yn y diwydiant Bwyd a Diod	Cynllun peilot sy'n llwyddiannus mewn mannau eraill yn y DU yn y Cymoedd i ddeall y problemau penodol sy'n creu rhwystrau at gyflogaeth yng Nghymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal peilot gyda busnesau bwyd i recriwtio ar gyfer rolau swyddi penodol gyda JCP, DWP, cwmni bwyd, darparwr hyfforddiant</li> </ul>
Annog datblygu gweithluoedd lleol sy'n 'barod ar gyfer y diwydiant'	Datblygu pasbort diwydiant bwyd Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu hyfforddiant cost effeithiol a hygyrch mewn pynciau cydymffurfio allweddol</li> <li>Dyfarnu pasbort wrth gwblhau e.e. hyfforddiant ac o bosibl profiad gwaith</li> </ul>
Adolygu sut y gall arloesi gynorthwyo i leihau gorddibyniaeth ar swyddi 'economi sylfaenol'	Annog datblygu strategaeth Technoleg i Gymru i awtomeiddio rolau sgiliau isel	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried datblygu strategaeth arloesi gan Fwrdd Bwyd a Diod Cymru</li> <li>Canolbwyntio ar sectorau allweddol e.e. cig i awtomeiddio rolau sy'n hanesyddol yn anodd recriwtio iddynt</li> </ul>

## 5

## Datblygu Cymru fel cartref arloesi ym maes bwyd a diod (nid sgiliau o reidrwydd)

Amcan	Mecanwaith	Tacteg
Datblygu Cymru fel cartref arloesi cynaliadwy i'r diwydiant bwyd	Adnabod llwyfannau arloesi allweddol ar gyfer y diwydiant i weithio'n rhag-gystadleuol ar themâu Cenedlaethau'r Dyfodol e.e. cynaladwyedd a'r amgylchedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hyrwyddo credydau treth ymchwil a datblygu i'r diwydiant i harneisio cyfleoedd</li> <li>Adnabod cyfleoedd cyllido allweddol i ddatblygu cyfleoedd newydd</li> <li>Datblygu cysylltiadau rhwng y diwydiant â Beacon (consortium Bangor, Aberystwyth ac Abertawe)</li> </ul>

